NODIADAU CANLLAW ALLANOL

Cronfa Gyfalaf Cerddoriaeth (MCF)

Nodiadau cyfarwyddyd cais am grant

Bwriad y nodiadau canllaw hyn yw eich helpu i gwblhau'r cais am gyllid ar gyfer Cronfa Gyfalaf Cerddoriaeth Cymru Greadigol (MCF)

Lansio Galwad 1af CMF: **1 Rhagfyr 2021**

Dyddiad Cau Galwad 1af CMF: **17 Rhagfyr 2021**

Cymru Greadigol – Cyd-destun Strategol

Mae'r Diwydiannau Creadigol yn rhan bwysig o economi Cymru, gan greu swyddi a chyfoeth, cyfrannu at frand cenedlaethol cryf a hyrwyddo Cymru yn y byd. Mae Cymru Greadigol yn asiantaeth fewnol o fewn Llywodraeth Cymru, a sefydlwyd yn benodol i gefnogi twf y diwydiannau creadigol yng Nghymru ymhellach ac i gynnig gwasanaeth symlach, deinamig ac arloesol i'r sector.

Mae'r diwydiant cerddoriaeth wedi'i nodi fel is-set flaenoriaeth allweddol, ac mae rhaglen o gefnogaeth i'r diwydiant cerddoriaeth yn cael ei chyflwyno, neu ei datblygu, y mae'r Cronfa Gyfalaf Cerddoriaeth Cymru Greadigol (MCF) yn elfen bwysig ohoni.

Diben y Gronfa

Mae busnesau cerddoriaeth yn llwyfan allweddol y gellir datblygu, meithrin a thyfu talent cerddorol ohono.

Mae'r diwydiant cerddoriaeth fyw yn hanfodol i ddatblygiad cerddorion a chynulleidfaoedd ledled y wlad.

Nod y gronfa yw annog busnesau cerddoriaeth i nodi meysydd i'w gwella o fewn eu sefydliadau a'u gweithrediadau, ond na fyddai'n bosibl heb gymorth y gronfa, oherwydd cyfyngiadau ariannol presennol a chyfredol.

Diben y Cronfa Gyfalaf Cerddoriaeth Cymru Greadigol (MCF) yw i fusnesau cerddoriaeth bach a chanolig wneud cais am gyllid a fyddai'n mynd tuag at wella a chynyddu rhagolygon masnachol a chynaliadwyedd eu busnesau; ac o ganlyniad, gyfrannu at ddatblygiad a thwf y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru.

Pwy all wneud cais?

Bydd angen i geisiadau gan fusnesau cerddoriaeth ddangos mai eu prif swyddogaeth yw rhaglennu, recordio neu gael eu defnyddio ar gyfer ymarfer cerddoriaeth wreiddiol, cynnal a/neu hyrwyddo digwyddiadau cerddoriaeth fyw o

natur fasnachol. Gall y gerddoriaeth sy'n cael ei chynnal, ei recordio, ei hymarfer neu ei hyrwyddo gan y busnes fod o'r sbectrwm llawn o genres cerddoriaeth boblogaidd gyfoes (electronig; hip-hop; indi ac amgen; metel a phync; pop; roc; ac ati).

Ni fyddai busnesau sy'n cynnal/hyrwyddo etc. cerddoriaeth glasurol, jazz neu werin yn bennaf yn gymwys ar gyfer y gronfa hon, gan fod cymorth ar gyfer y genres hyn yn bodoli mewn mannau eraill (yn bennaf gyda Chyngor Celfyddydau Cymru).

Ni allwn gefnogi ceisiadau gan fandiau, rheolwyr, hyrwyddwyr neu asiantau unigol. Hefyd, dim ond y perchnogion sy'n gyfrifol am redeg y busnes fydd yn gymwys i wneud cais am y cyllid hwn.

- Rhaid i ymgeiswyr weithredu o fewn y sector creadigol yng Nghymru
- Rhaid i ganolfan yr ymgeiswyr ynghŷd a'u gweithrediadau a'u staff fod yng Nghymru
- Rhaid i ymgeiswyr allu cynnig o leiaf blwyddyn o gyfrifon wedi'u hardystio'n gwbl annibynnol neu ddatganiadau ariannol archwiliedig (nid oes angen i chi fod wedi cofrestru ar gyfer TAW os yw cyfanswm eich trosiant yn is na'r trothwy cofrestru)
- Bydd disgwyl i sefydliadau neu fusnesau sy'n cael cymorth drwy'r cynllun hwn gyd-fynd ag ethos ac egwyddorion y Contract Diwylliannol ehangach (gweler isod am ragor o wybodaeth).

Beth allwch chi wneud cais amdano?

Rhaid i'r cais am gyllid fod yn gysylltiedig â phrosiect sy'n mynd tuag at wella rhagolygon masnachol y busnes ei hun, ac yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gefnogi twf y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru.

- Ystyrir prosiect fel gweithgaredd o fewn cyfnod penodol gyda dyddiad cychwyn clir a dyddiad gorffen. Felly, ni ellir defnyddio'r gronfa ar gyfer rhywbeth sy'n barhaus a/neu sy'n gysylltiedig â rhedeg y busnes o ddydd i ddydd
- Rhaid i geisiadau gynnig gwerth da am arian a fydd yn rhan o'r asesiad. Gwnewch gais am yr hyn sydd ei angen arnoch yn unig ac nid yr uchafswm, oni bai bod angen yr uchafswm

Er mwyn cynorthwyo gyda'r broses ymgeisio, rhaid i fusnesau nodi yn erbyn un (neu fwy) o'r penawdau gweithgaredd canlynol eu bod yn dymuno i'r cyllid gael ei ddefnyddio ar gyfer:

- Gwelliannau i brofiad y gynulleidfa neu'r defnyddiwr;
- Adeiladau eiddo a gwelliannau strwythurol;
- Gwelliannau i brofiad lefel gwasanaeth; a
- Gwelliannau cyflawni arloesol.

Gwelliannau i brofiad y gynulleidfa/defnyddwyr

Bydd y mathau o brosiectau o dan y pennawd gweithgaredd hwn yn gysylltiedig â gwneud gwelliannau i safle'r busnesau sy'n mynd tuag at gyfoethogi profiadau cynulleidfaoedd sydd wedi talu ar gyfer digwyddiadau cerddoriaeth fyw neu ddefnyddwyr y lleoliad, y stiwdio neu'r gofod ymarfer.

Gallai enghreifftiau o'r mathau o brosiectau o dan y pennawd gweithgaredd hwn gynnwys:

- Newid neu osod goleuadau newydd, yn enwedig o amgylch y mannau perfformio;
- Newid hen loriau neu rai wedi'u difrodi;
- Newid hen offer neu systemau sain (neu osodiadau).

Adeiladau eiddo a gwelliannau strwythurol

Bydd y mathau o brosiectau o dan y pennawd gweithgaredd hwn yn gysylltiedig â gwneud gwelliannau strwythurol yn bennaf i safle'r busnesau, yn enwedig lle mae angen moderneiddio'r elfennau allanol er mwyn helpu i ddenu cynulleidfaoedd newydd a/neu gerddoriaeth.

Gallai enghreifftiau o'r mathau o brosiectau o dan y pennawd gweithgaredd hwn gynnwys:

- Gwella hygyrchedd y lleoliad, yn enwedig i ddefnyddwyr sydd â nam corfforol;
- Gosod deunydd atal sŵn yn y meysydd perfformio;
- Moderneiddio'r addurno, yn enwedig elfennau sy'n wynebu'r cyhoedd yn yr adeilad.

Gwelliannau profiad lefel gwasanaeth

Bydd y mathau o brosiectau o dan y pennawd gweithgaredd hwn yn gysylltiedig â mentrau i wella profiadau lefel gwasanaeth cynulleidfaoedd cerddoriaeth fyw a chwsmeriaid eraill y busnes cerddoriaeth.

Gallai enghreifftiau o'r mathau o brosiectau o dan y pennawd gweithgaredd hwn gynnwys:

- Adnewyddu bariau, byrddau a seddi hen neu wedi torri;
- Gosod systemau diogelwch newydd fel teledu cylch cyfyng newydd;
- Gosod systemau tocynnau newydd (ac eithrio costau parhaus eu gweithrediadau os yw'n berthnasol);
- Gosod/gwella system aerdymheru.

Gwelliannau cyflawni arloesol

Bydd y mathau o brosiectau o dan y pennawd gweithgaredd hwn yn gysylltiedig â mentrau sy'n ymwneud â datblygu a darparu cynnyrch, proses neu wasanaeth arloesol sy'n helpu i wella cynaliadwyedd, rheolaeth a gweithrediadau'r busnes. Rhaid i'r cynnyrch, y broses neu'r gwasanaeth arloesol arwain yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol at welliannau yn y profiad i ddefnyddwyr a/neu gynulleidfaoedd.

Gallai enghreifftiau o'r mathau o brosiectau o dan y pennawd gweithgaredd hwn gynnwys:

- Creu rhwydwaith clwstwr rhwng busnesau cyfagos i rannu gweinyddu a chostau;

- Partneriaeth ag arbenigwyr technolegol i greu profiadau newydd i gynulleidfaoedd gan ddefnyddio technoleg drochi a cherddoriaeth fyw;
- Dylunio rhaglen 'teyrngarwch a gwobrwyo' ar gyfer perfformwyr a chynulleidfaoedd cerddoriaeth fyw;
- Systemau archebu ar-lein ar gyfer artistiaid sy'n dymuno dod o hyd i le ar gyfer eu hymarfer/recordio;
- Galluoedd ffrydio byw.

Rydym yn arbennig o awyddus i dderbyn prosiectau o dan y pennawd hwn, yn enwedig lle mae gan y prosiect y potensial i gynyddu o ran y nifer sy'n cael eu cyrraedd ac araloedd daearyddol.

Yr hyn na allwch wneud cais amdano

Ni ellir gwneud ceisiadau ar gyfer:

- Cyflogau staff;
- Rhent neu gyfleustodau;
- Ardrethi busnes;
- Ffioedd cyfreithiol;
- Costau sy'n gysylltiedig â chynllunio;
- Lle nad yw gweithgaredd y prosiect yn mynd tuag at wella'r lleoliad cerddoriaeth ar lawr gwlad mewn unrhyw ffordd;

At hynny, ni ellir defnyddio cyllid i reoli a chydbwyso cyfrifon o fewn gwahanol weithrediadau'r un busnes. Er enghraifft, os yw lleoliad cerddoriaeth yn gweithredu un cyfrif ar gyfer cerddoriaeth fyw ac adloniant, ac un arall ar gyfer arlwyo.

Dim ond gan fusnesau sydd wedi bod yn masnachu am o leiaf 12 mis y derbynnir ceisiadau, gyda chyfrifon priodol yn cael eu ffeilio am y cyfnod hwnnw yn Nhŷ'r Cwmnïau.

Ni fydd y gronfa'n talu costau a gefnogwyd yn flaenorol drwy gyllid grant arall (er enghraifft Cronfa Rhyddhad Economaidd Llywodraeth Cymru) neu sy'n cael eu cefnogi gan gronfeydd cyhoeddus eraill ar hyn o bryd.

Ni ellir defnyddio'r gronfa yma fel arian cyfatebol ar gyfer cais arall am gyllid gan Lywodraeth Cymru.

Hefyd, ni ellir gwneud ceisiadau gan fusnesau sydd wedi'u clustnodi i'w cau, neu sydd mewn perygl mawr o gau. Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus barhau i fod yn weithredol am o leiaf 12 mis ar ôl derbyn unrhyw gyllid. Os caiff busnes ei werthu neu ei addasu at ddibenion gwahanol, mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i adennill unrhyw arian a ddarparwyd.

Bydd angen i bob cais gyflwyno cyfrifon busnes perthnasol fel rhan o'r broses ymgeisio. Bydd yr wybodaeth a ddarperir yma, ac mewn dogfennau perthnasol eraill, yn cael ei defnyddio i benderfynu a yw'r busnes yn anghymwys i gael cyllid o ganlyniad i'w hamgylchiadau ariannol.

Yr hyn na fyddwn yn ei ariannu:

- Unrhyw gostau cyfalaf megis datblygiadau adeiladu ar raddfa fawr neu waith adnewyddu;
- Costau cychwyn, e.e. offer a gofod swyddfa, costau recriwtio ac ati;
- Costau a ysgwyddwyd cyn dechrau dyfarnu cyllid (llythyr cynnig wedi'i lofnodi a dderbyniwyd gennym);
- Costau diswyddo;
- TAW adenilladwy; Dyled hanesyddol sylweddol (cyn 1 Ebrill 2021);
- Costau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo achos credoau sefydliadau gwleidyddol neu ffydd;
- Unrhyw beth sy'n groes i ddeddfwriaeth neu gyngor Llywodraeth Cymru ar Covid-19;
- Unrhyw fath o weithgaredd a allai, yn ein barn ni, ddwyn anfri ar Lywodraeth Cymru;
- Costau a ariennir o ffynonellau eraill o gyllid cyhoeddus;
- Dyled hanesyddol sylweddol (cyn 1 Ebrill 2021);
- Swm i dalu am incwm a gollwyd neu i ail-chwyddo eich cronfeydd wrth gefn;
- Prosiectau sy'n dibynnu ar lafur am ddim, neu sy'n ei annog

Faint allwch chi wneud cais amdano?

Gellir gwneud ceisiadau am gyllid gan y Cronfa Gyfalaf Cerddoriaeth Cymru Greadigol (MCF) am hyd at uchafswm o £10,000.

Sut fydd y broses ymgeisio'n gweithio?

Y Broses Ymgeisio

Bydd yr Alwad hon am gynigion ariannu yn dechrau Ddydd Mercher 1 Rhagfyr 2021, a bydd yn cau i geisiadau ddydd Gwener 17 Rhagfyr 2021 am 12.00 hanner dydd. Ni dderbynnir unrhyw geisiadau hwyr.

Cyn i chi wneud cais, mae gennych yr opsiwn i drafod eich cynnig gydag un o Reolwyr Datblygu Sector Cymru Greadigol drwy E-bost yn CymorthAriannuCymruGreadigol@llyw.cymru .

Gwneir ceisiadau am y Cronfa Gyfalaf Cerddoriaeth Cymru Greadigol (MCF)gan ddefnyddio'r Ffurflen Gais Cronfa Gyfalaf Cerddoriaeth Cymru Greadigol (MCF)) y bydd angen ei chyflwyno ar ôl ei llenwi i Cymru Greadigol, ynghyd â dogfennau ategol perthnasol (e.e. cyfrifon ariannol a llifau arian parod, dyfynbris am gost y prosiect).

Rhaid i geisiadau sicrhau y byddant yn gallu cyflawni eu prosiect cyn 31 Mawrth 2022.

Cynhelir Diwydrwydd Dyladwy ar bob cais. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'ch amcanestyniadau ariannol, gwiriad twyll, a gwiriadau ar Gyfarwyddwyr eich cwmni. Os ydych yn ymwneud â busnes sydd mewn dyled i Lywodraeth Cymru, mae'n annhebygol y byddwch yn gallu gwneud cais am gyllid pellach a dylech drafod hyn gyda ni cyn unrhyw gais.

Ni ddylech ddechrau ar y prosiect nes bod eich cais wedi'i gymeradwyo a bod llythyr cynnig wedi'i gyhoeddi. Os byddwch yn gwneud hynny, efallai y byddwch yn annilysu eich cais yn llwyr, hyd yn oed os bydd yn llwyddiannus.

Arfarnu Prosiectau

Dyfernir cyllid gan Cymru Greadigol i geisiadau sy'n cyd-fynd â'n hegwyddorion allweddol, fel y nodir yn y tabl isod. Er na fyddem yn disgwyl i brosiectau unigol gyflawni'n uniongyrchol yn erbyn pob un o'r rhain, rhaid i brosiectau gyflawni yn erbyn y meini prawf penodol ar gyfer y cynllun hwn, a bydd prosiectau sydd wedi'u targedu'n uniongyrchol at y meysydd hyn yn cael eu blaenoriaethu. Felly, dylid teilwra eich cais i ddangos ble mae'r rhain yn cael eu bodloni;

Egwyddorion allweddol cyllid gan Cymru Greadigol :
Dylai'r cyllid a ddyfernir i fusnesau :
Cydweddu Strategaethau Cyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer y diwydiannau creadigol yng Nghymru - Bydd cyllid yn cael ei gynllunio i gyflawni uchelgeisiau Cymru Greadigol ar gyfer y diwydiannau creadigol, a'r blaenoriaethau a nodir yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Bydd yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gefnogi datblygu sgiliau a thalent, amrywiaeth a chynhwysiant yn ei ystyr ehangaf, gwaith teg, cynaliadwyedd, a hyrwyddo ein diwylliant a'n hiaith Gymraeg. Caiff cyllid ei flaenoriaethu tuag at y prosiectau hynny sy'n gwneud gwahaniaeth i sefyllfa y diwydiannau creadigol yng Nghymru dros y tymor canolig i'r hirdymor.
Manteisio i'r eithaf ar y manteision i Gymru, gan gynnwys manteision economaidd Bydd cyllid yn cael ei dargedu at brosiectau sy'n sicrhau'r elw mwyaf posibl ar fuddsoddiad, er mwyn sicrhau bod cyllidebau cyfyngedig yn sicrhau'r gwerth mwyaf posibl i Gymru.

Unwaith y byddwn wedi derbyn eich cais, a bod yr alwad wedi cau, byddwn yn cynnal gwiriadau ac arfarniadau o'r holl brosiectau a dderbynnir erbyn y dyddiad cau ar gyfer galwadau. Byddwn yn ceisio rhoi gwybod i bob ymgeisydd am ganlyniad ein penderfyniadau cyn gynted â phosibl ar ôl y dyddiad cau ar gyfer galwadau.

Bydd pob prosiect yn cael ei arfarnu mewn dau gam:

- **Cam cyntaf** – cynhelir gwiriadau i sicrhau bod yr holl feini prawf cymhwysedd sylfaenol wedi'u bodloni yn Atodiad 1, gan gynnwys alinio'r prosiect â'n hegwyddorion ariannu allweddol fel yr amlinellir yn y tabl uchod. Caiff ceisiadau / prosiectau nad ydynt yn bodloni'r holl wiriadau cymhwysedd neu nad ydynt yn bodloni ein hamcanion strategol ar gyfer ariannu eu gwrthod
- **Ail gam** – Bydd ceisiadau sydd wedi bodloni'r holl feini prawf cymhwysedd uchod, ac sy'n unol â'n hegwyddorion ariannu allweddol, yn cael eu gwerthuso yn unol â'r meini prawf gwerthuso yn Atodiad 2. Bydd prosiectau

sy'n cyrraedd y sgôr pasio isaf yn cael eu hargymell i'w cymeradwyo gan y Gweinidog, ar yr amod bod y cyllid ar gael.

Bydd ceisiadau llwyddiannus yn derbyn Llythyr Cynnig Grant sy'n amlinellu mwy o fanylion y telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'n cynlluniau grant, a manylion sy'n berthnasol i'r Cronfa Gyfalaf Cerddoriaeth Cymru Greadigol (MCF)yn unig. Ar ôl eu derbyn, bydd angen i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn llofnodi ac yn dychwelyd hyn atom cyn gynted â phosibl, ac ar ôl iddynt fod yn fodlon â'r telerau a'r amodau fel yr amlinellir yn y cynnig grant. Bydd dyfarniadau'n cael eu gwneud o fewn pum wythnos i'r dyddiad cau ar gyfer yr alwad.

Byddwn yn cytuno ar yr amserlenni a'r terfynau amser ar gyfer cyflawni a chwblhau eu prosiect gyda ceisiadau llwyddiannus ynghyd ag amserlen dalu.

Bydd cyflawni yn erbyn yr hyn y cytunwyd arno yn parhau i gael ei gofnodi am hyd at 12 mis ar ôl cwblhau'r prosiect a bydd yn un o amodau'r cynnig o grant.

Fel rhan o'n cefnogaeth, bydd disgwyl i bob cais ddarparu gwybodaeth barhaus sy'n gysylltiedig ag adborth i ni bob mis i gefnogi datblygiad ein cronfa ddata busnes cerddoriaeth fyw. Datblygwyd ffurflen adrodd safonol gan Cymru Greadigol, a chaiff ei darparu i ymgeiswyr llwyddiannus yn ystod y cam o gynnig cyllid i'w defnyddio gan leoliadau wrth gasglu'r data angenrheidiol sydd ei angen i adrodd i ni hyd at 24 mis ar ôl oes y Cronfa Gyfalaf Cerddoriaeth Cymru Greadigol (MCF)

Allbynnau a chanlyniadau

Bydd y cyllid yn canolbwyntio ar nifer o allbynnau a chanlyniadau allweddol, gan gynnwys:

- Nifer y swyddi sydd wedi'u diogelu / creu
- Nifer yr unigolion / gweithwyr llawrydd a gefnogir
- Twf y busnes
- Gwella lefelau sgiliau
- Cyfleoedd i wella amrywiaeth
- Cyfleoedd i wella cynaliadwyedd
- Mwy o gyfleoedd i staff.

Gofynnir i ymgeiswyr ddewis allbynnau perthnasol wrth wneud cais, a bydd y rhain yn cael eu nodi ar y llythyr cynnig.

Ni fydd derbyn unrhyw Gronfeydd Adfer Diwylliannol yn atal unrhyw fusnes rhag gwneud cais am Cronfa Gyfalaf Cerddoriaeth Cymru Greadigol (MCF)

Mae Cronfa Gyfalaf Cerddoriaeth Cymru Greadigol (MCF)yn gronfa ddewisol heb broses apelio benodol. Hysbysir ceisiadau aflwyddiannus yn dilyn ein penderfyniad a rhoddir cyngor ac adborth iddynt ar eu cais.

Cymeradwyo Prosiectau

- Bydd yr holl gynigion a aseswyd yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Llywodraeth Cymru i'w cymeradwyo'n derfynol.

- Yn dilyn ystyriaeth y Gweinidog, bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am y penderfyniad terfynol a bydd llythyrau cynnig yn cael eu rhoi i ymgeiswyr llwyddiannus
- Bydd angen llofnodi llythyrau cynnig a dychwelyd un copi i Lywodraeth Cymru cyn cychwyn y prosiect

Apelau

Mae Cronfa Gyfalaf Cerddoriaeth Cymru Greadigol (MCF)yn gronfa ddewisol heb unrhyw apeliadau.

Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael eu hysbysu drwy e-bost yn dilyn penderfyniad y panel asesu.

Amserlen

Bydd y gronfa'n agor ar gyfer ceisiadau o Ddydd Mercher 1 Rhagfyr 2021 a bydd yn cau i geisiadau ddydd Gwener 17 Rhagfyr 2021 am hanner dydd.

Byddwn yn asesu ceisiadau erbyn 14 Ionawr, ac yn cadarnhau canlyniad erbyn 21 Ionawr 2022, ond mae'r amseriad hwn yn dibynnu ar nifer y ceisiadau a dderbyniwyd.

Bydd y cyfnod ariannu cymwys yn cwmpasu'r dyddiad cymeradwyo ar y llythyr cynnig tan 31 Mawrth 2022.

Ni dderbynnir unrhyw geisiadau hwyr.

Proses hawlio ac amodau'r gronfa

Amserlen Hawlio

Gofynnir i chi roi amserlen dalu arfaethedig ar gyfer y cyfnod cyllido cyflawn ar gyfer eich prosiect rhwng Ionawr 2022 a Mawrth 2022.

Talu a Monitro

- Os bydd eich cais yn llwyddiannus, mae angen bodloni amodau talu fel y nodir yn yr amserlen llythyrau cynnig
- Telir yr arian mewn ôl-ddyledion yn ddiofyn. Mewn rhai achosion, gellir talu cyllid ymlaen llaw, lle gall ymgeisydd ddangos tystiolaeth foddhaol bod angen gwneud hyn
- Telir hawliadau ôl-ddyledion ar dystiolaeth a chwblhau proffil gwariant a ffurflen hawlio a ragwelir, erbyn diwedd Mawrth 2022 fan hwyraf. Telir hawliadau ymlaen llaw bob chwarter yn seiliedig ar gostau a ragwelir a'u hadolygu ym mhob chwarter ar gyfer gweddill cyfnod y prosiect. Bydd angen tystiolaeth o wariant ar ddiwedd pob chwarter
- **'Costau wedi'u Talu'** yw costau nwyddau sy'n cael eu rhyddhau trwy daliad neu sydd wedi'u setlo gennych fel arall. Bydd angen tystiolaeth o dalu ar gyfer pob sefydliad p'un a yw hawliadau'n seiliedig ar flaendal neu ôl-ddyledion.
- Bydd ffurflenni cais yn cael eu cyhoeddi ar gais a gellir eu cyflwyno drwy E-bost i CymorthAriannuCymruGreadigol@llyw.cymru . Bydd angen i'r

prosiect sy'n cael ei dalu mewn ôl-ddyledion ddarparu tystiolaeth lawn cyn unrhyw daliadau fel y'u gwneir. Bydd manylion am yr hyn y mae angen i chi ei ddarparu yn ystod y cam hawlio yn cael ei gynnwys yn eich llythyr cynnig
- Ar ôl ei gymeradwyo, bydd taliad yn cael ei wneud o fewn 4 diwrnod gwaith.

Monitro ar ôl Cwblhau

Bydd cyflawni yn erbyn allbynnau y cytunwyd arnynt yn parhau i gael eu cofnodi am hyd at 24 mis ar ôl cwblhau'r prosiect a bydd yn un o amodau'r cynnig grant.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i werthuso llwyddiant y grant hwn ac mae'n bwriadu cynnal gwerthusiad mewnol o Cronfa Gyfalaf Cerddoriaeth (MCF). Rhagwelir y bydd yr ymchwil hwn yn archwilio gweithrediad ac effaith y gweithgareddau sydd wedi'u cyflawni. Bydd yn asesu i ba raddau y gellir priodoli'r allbynnau a'r canlyniadau yn uniongyrchol i weithgareddau'r cynllun ac yn archwilio a yw effeithiau ehangach a ragwelir neu nas rhagwelwyd wedi'u gwireddu.

Gall Llywodraeth Cymru neu drydydd parti sy'n gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru gysylltu â chi at ddibenion ymchwil a gwerthuso a/neu i roi adborth ar eich profiad o'r cynllun. Caiff yr wybodaeth hon ei dadansoddi a'i chyflwyno'n ddienw yn unol â'r Hysbysiad Preifatrwydd.

Ad-dalu Grant

Dylai ymgeiswyr nodi y gallai Llywodraeth Cymru ofyn am ad-daliad o'r grant yn llawn neu'n rhannol os na chaiff yr arian ei ddefnyddio at y dibenion a nodir ar y ffurflen gais. Mae'r ymgeisydd yn ymrwymo i gytundeb a bydd hyn yn cael ei orfodi drwy ofyn am brawf, ar ôl y dyfarniad grant.

Rheoli Cymhorthdal y DU

Fel rhan o'ch cais bydd angen i chi ddarparu manylion unrhyw gyllid blaenorol y mae eich busnes wedi'i dderbyn.

Gellir talu cymorth sy'n cyd-fynd â 'Fframwaith Dros Dro yr UE ar gyfer Mesurau Cymorth Gwladwriaethol i Gefnogi'r Economi yn ystod yr Achosion presennol o COVID-19' yn unol â'r Egwyddorion a nodir yn Erthygl 3.4 o'r TCA ac yn unol ag Erthygl 3.2(3) o'r TCA o dan Lwfans Grant Busnes COVID-19 (cymorthdaliadau a roddir dros dro i ymateb i argyfwng economaidd cenedlaethol neu fyd-eang). Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma Y Gronfa Adfer ac Ailadeiladu Diwylliannol | LLYW.CYMRU

Bydd pawb sy'n derbyn cymhorthdal o dan y Cynllun yn cael gwybod bod cymorth wedi'i ddarparu o dan Gynllun 'Cronfa Adfer ac Ailadeiladu Diwylliannol Cymru' neu'n cyd-fynd â Fframwaith Dros Dro'r UE i gefnogi'r economi yng nghyd-destun yr achosion o COVID-19.

Yn unol ag ymrwymiadau'r DU o dan Gytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r holl wybodaeth a dogfennau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i bartïon â diddordeb i ddangos eu bod yn cydymffurfio â threfn rheoli cymhorthdal y DU o fewn mis i gais o'r fath gael ei wneud.

Y Contract Diwylliannol

Dyfernir cyllid gan Cymru Greadigol i gefnogi cyd-destun polisi ehangach Llywodraeth Cymru, ac rydym yn disgwyl i sefydliadau sy'n derbyn ein cymorth weithredu mewn modd cyfrifol ac i ymrwymo i egwyddorion Contract Economaidd / Diwylliannol Llywodraeth Cymru, sy'n adlewyrchu blaenoriaethau ein Rhaglen Lywodraethu a'r weledigaeth ar gyfer Cymru a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Y rhain yw:

- *cryfder economaidd a hyblygrwydd* - Mae sefydliadau sy'n adeiladu busnesau gwell cryfach, yn gwrthsefyll ac yn hyblyg i newid amodau economaidd a'r farchnad. Mae sefydliadau'n barod i dyfu'n gynaliadwy ac maent yn meithrin cysylltiadau cydweithredol cryf
- *gwaith teg* – Sefydliadau lle mae gweithwyr yn cael eu gwobrwyo, eu clywed a'u cynrychioli'n deg, yn ddiogel ac yn gallu datblygu mewn amgylchedd iach a chynhwysol lle mae hawliau'n cael eu parchu. Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant ar gyfer pob grŵp gwarchodedig yn rhan annatod o hyn
- *hyrwyddo lles* – Sefydliadau sy'n ymrwymedig ac yn cymryd camau rhagweithiol i hyrwyddo lles pobl, er enghraifft drwy sicrhau gweithlu iachach, cyfrannu at greu cymunedau cydlynol a hyrwyddo a diogelu ein diwylliant bywiog, ein treftadaeth a'r Iaith Gymraeg, gan annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau
- *carbon isel a chydnerthedd yn yr hinsawdd* - Sefydliadau carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, gan gymryd camau cadarnhaol i leihau a gostwng allyriadau, adeiladu gwytnwch ac ymateb i'r bygythiadau a'r cyfleoedd o effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy addasu arferion busnes ar gyfer y dyfodol.

<u>Cyhoeddusrwydd</u>

Bydd angen i bob cais llwyddiannus:

- Cytuno i gael eu cynnwys ar yr holl gyhoeddusrwydd, datganiadau i'r wasg a deunydd marchnata sy'n cael ei gynhyrchu gennym
- Fel amod ariannu, byddwch yn cytuno i ymgymryd â hyd at 3 blynedd o gyhoeddusrwydd ar y cyd â Cymru Greadigol a gofynnir i chi ddarparu casgliad o ddelweddau a fideo, a hawliau perthnasol o'r prosiect i ni eu defnyddio yn y wasg ac ar gyfer cyhoeddusrwydd. Dylid trafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â hyn gydag aelod o dîm Cymru Greadigol. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu hysbysu cyn rhyddhau deunydd yn gyffredinol
- Hoffem ychwanegu ein holl ymgeiswyr at ein cronfa ddata farchnata i sicrhau eich bod yn derbyn gwybodaeth amserol am opsiynau cymorth pellach gan Cymru Greadigol, ond nid yw hyn yn amod ariannu
- Bydd disgwyliad hefyd y bydd ceisiadau llwyddiannus yn rhannu delweddau perthnasol a deunyddiau hyrwyddo gyda Cymru Greadigol i'w defnyddio yn ôl y gofyn.

Yr Iaith Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo a chynyddu'r nifer sy'n siarad Cymraeg. Mae'r diwydiannau creadigol yn chwarae rhan allweddol wrth gyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg a'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 fel y nodir yn Cymraeg 2050. Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi ein huchelgeisiau ac yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae blaenoriaethau'r Gymraeg yn un o amrywiol feysydd y byddwn yn eu hystyried fel rhan o'n hasesiad o gydweddu strategaethau wrth adolygu prosiectau.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae amcanion y Ddeddf yn dangos sut y bydd pob corff cyhoeddus yn gweithio i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer Cymru a nodir yn y 'nodau llesiant'. Mae'r saith nod llesiant yn dangos y math o Gymru yr ydym am ei gweld. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i'r cyrff cyhoeddus rhestredig weithio i gyflawni'r holl nodau, nid dim ond un neu ddau. Bydd cyfeirio at sut mae eich prosiect yn bodloni'r nodau hyn yn bwysig wrth asesu cais ac esboniad ohono.

Hysbysiad Preifatrwydd

- Llywodraeth Cymru yw'r Rheolydd Data ar gyfer unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei darparu. Gallwch weld manylion llawn am ein polisi preifatrwydd ar y dudalen Hysbysiad Preifatrwydd.

Bydd yr wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn cefnogi gwaith datblygu cronfa ddata o fusnesau cerddoriaeth. Gofynnwn i chi gadarnhau yn yr adran o'ch ffurflen gais eich bod yn hapus i barhau ar y sail yma fel y gallwch barhau i dderbyn cymorth a chyngor gan Lywodraeth Cymru.

Sicrhewch eich bod wedi darllen, deall a derbyn y 'Nodiadau Canllaw' a'r 'Hysbysiad Preifatrwydd' **cyn** i chi ddechrau'r cais.

Atodiad 1

Meini Prawf Cymhwysedd

Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu yn gyntaf yn erbyn y meini prawf cymhwysedd canlynol.

Caiff ceisiadau nad ydynt yn bodloni'r holl feini prawf cymhwysedd eu gwrthod yn awtomatig ac ni fyddant yn mynd ymlaen i'r cam gwerthuso.

Meini Prawf Cymhwysedd	• Rhaid i'r cais fod gan fusnes cerddoriaeth yng Nghymru – a lle mai'r brif swyddogaeth yw cynnal, hyrwyddo, recordio neu ymarfer cerddoriaeth fyw (ond lle nad yw'r prif genre yn gerddoriaeth glasurol, jazz neu werin gan fod y rhain yn gelfyddydau â chymhorthdal); • Rhaid i'r prosiect gyfrannu'n uniongyrchol, neu'n anuniongyrchol at hyrwyddo, cynnal ac ati cerddoriaeth fyw; • Rhaid cyflwyno'r prosiect erbyn 31 Mawrth 2022 • Rhaid i'r busnes wneud y cais; • Nid yw busnesau sydd mewn perygl o gau cyn bo hir yn gymwys i wneud cais; • Rhaid i ymgeiswyr fod yn fusnes neu'n elusen gofrestredig, sydd wedi bod yn masnachu am o leiaf 12 mis.

Atodiad 2

Meini Prawf Gwerthuso

Bydd angen i brosiectau fodloni'r egwyddorion ariannu a nodir uchod er mwyn symud i'r ail gam i'w hasesu yn erbyn y meini prawf canlynol:

MP	*Meini Prawf Gwerthuso*	*Sgôr*
1	**Cydweddu Strategol** • Cyd-fynd â'r egwyddorion ariannu cyffredinol • A yw eich prosiect yn manteisio i'r eithaf ar y manteision i Gymru, gan gynnwys manteision economaidd • A yw eich prosiect yn cyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer y diwydiannau creadigol yng Nghymru • Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	/5
2	**Ansawdd y prosiect** • Ansawdd gyffredinol y cais • Arloesedd	/5
3.	**Tystiolaeth o Angen** • Pam mae angen cyllid llywodraeth Cymru ar gyfer y prosiect hwn? e.e., Pam mae angen y cyllid arnoch? A fydd yn cyflymu'r prosiect? A fyddai'n digwydd heb gefnogaeth?	/5
4.	**Risgiau i'r prosiect a chyflenwi** Ansawdd yr wybodaeth a ddarperir ar ei gyfer y: • Tîm Rheoli • Risg i asedau'r prosiect h.y. offer symudol • Risgiau'r Prosiect	/5
5.	**Cyflawni Prosiectau** • Ansawdd targedau'r prosiect: • Allbynnau a chyflawniadau, a ddefnyddir i fesur llwyddiant y prosiect • Gwybodaeth fanwl am sut y caiff y rhain eu mesur	/5
6.	**Costau Prosiectau a Gwerth am Arian** • Mae'r cynnig cyffredinol yn rhoi gwerth am arian • Mae gweithgarwch a chostau cysylltiedig yn rhoi gwerth realistig a gwerth gorau • Costau prosiect, dyfynbrisiau • Mae'r manteision disgwyliedig yn gymesur â chostau • Y gallu i gael effaith ar y sector dros gyfnod hwy	/5